







BMC
Cyngor Mynydda Prydain

# MANIFFESTO AR GYFER DRINGO A CHERDDED MYNYDDOEDD YNG NGHYMRU

2021



www.thebmc.co.uk

**BMC**
**Cyngor Mynydda Prydain**

**Cyngor Mynydda Prydain (BMC)** yw'r corff cenedlaethol sy'n cynrychioli dringwyr, cerddwyr mynydd a mynyddwyr yng Nghymru a Lloegr.

Mae BMC Cymru yn ymrwymedig i hybu buddiannau dringwyr, cerddwyr mynydd a mynyddwyr ac arferiad da ym mhob gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn yng Nghymru.

**www.thebmc.co.uk**

**Mae BMC Cymru yn awyddus i greu anturiaethau ffyniannus, egnïol, sy'n gwella bywyd ac sy'n cael eu mwynhau gan y genedl yn yr awyr agored yng Nghymru.**

**Yn 2021, rydym yn galw ar y pleidiau gwleidyddol i sicrhau bod gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored a mynediad at yr arfordir a chefn gwlad yn elfen allweddol mewn polisïau cyhoeddus yn y dyfodol.**

Mae'r pandemig coronafeirws (COVID-19) wedi profi bod mynediad teg ac am ddim y cyhoedd i gefn gwlad yn hanfodol er mwyn sicrhau cenedl egnïol ac iach. Mae galluogi pobl i gael cyfleoedd i elwa ar weithgareddau hamdden yn yr awyr agored o garreg eu drws, yn ogystal â rheoli ein tirwedd er mwyn cynnal gweithgareddau hamdden cynaliadwy yn ganolog er mwyn cyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Bydd polisïau cadarn sy'n galluogi ac yn annog gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored yn helpu i gyflawni'r saith nod llesiant a chyflawni budd cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd hirdymor i bobl Cymru.

Mae gweithgareddau rheolaidd yn yr awyr agored, yn arbennig yn ystod plentyndod, yn sicrhau buddiannau hirdymor i iechyd corfforol a meddyliol da, mae'n datblygu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o gefn gwlad, sy'n arwain at ymwybyddiaeth amgylcheddol ac yn darparu gwybodaeth a sgiliau defnyddiol, a datblygu gwytnwch ac annibyniaeth. Mae BMC Cymru yn ymrwymedig i weithio gyda Llywodraeth Cymru i greu dyfodol mwy llewyrchus ac anturus i bawb.

Yn y maniffesto hwn ar gyfer 2021, mae BMC Cymru yn amlygu'r camau gweithredu allweddol y credwn y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau cenedl iach ac amgylchedd cynaliadwy i'w fwynhau gan bawb.

**Mae gennym 5 nod allweddol:**

1

# CYDNABOD GWERTH CERDDED A DRINGO AR DRAWS PORTFFOLIOS AMRYWIOL Y LLYWODRAETH

Mae gwerth a buddiannau gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored yn berthnasol ar draws nifer o bortffolios amrywiol: Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth; yr Economi a Thrafnidiaeth; Addysg; yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig; Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Iaith Gymraeg. Rydym yn awyddus i weithio gyda holl adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru i wireddu gweledigaeth hirdymor ar gyfer gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddringo, cerdded a mynydda a mynediad i bawb.

**Gofynnwn i:**

- pob plaid wleidyddol gefnogi polisïau sy'n cydnabod ac yn hyrwyddo pwysigrwydd gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored ar gyfer cyflawni'r saith nod llesiant sydd wedi'u hamlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- creu Grŵp Trawsbleidiol yn y Senedd ar gyfer hamdden yn yr awyr agored, i gynnwys dringo, cerdded a mynydda
- ymgysylltu â chymunedau, yn arbennig pobl ifanc, wedi'i gefnogi gan broses gyfathrebu a marchnata effeithiol er mwyn sicrhau cydraddoldeb, datblygu gwytnwch a gwella cydlyniant cymunedol.



LLUN: GARRY SMITH.

Cerdded mynydd, Yr Wyddfa, o Glyder Fawr, Dyffryn Ogwen. Parc Cenedlaethol Eryri



**47%**

Mae 47% o oedolion yng Nghymru yn teithio llai na milltir o'u cartref er mwyn ymweld â'r awyr agored, gyda 30% o'r ymweliadau hyn i barc lleol; 19% i'r traeth neu'r arfordir a 14% i goetir neu goedwig.

(Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 Cyfoeth Naturiol Cymru – Hamdden Awyr Agored)

# 2

## GWELLA MYNEDIAD I'R ARFORDIR A CHEFN GWLAD

Mae BMC Cymru yn credu bod mynediad ar droed i gefn gwlad yn fudd i'r cyhoedd. Rydym yn gryf o blaid yr egwyddor o Raglen Diwygio Mynediad yng Nghymru, er mwyn darparu mynediad gwell a mwy o fynediad i gefn gwlad ar gyfer gweithgareddau hamdden anffurfiol. Dylai deddfwriaeth newydd ddarparu eglurder a sicrwydd ynghylch lle gall pobl fynd a beth gallent ei wneud, a moderneiddio a symleiddio'r fframwaith rheoleiddiol presennol yr un pryd.

**Gofynnwn i'r:**

- hawl mynediad ar droed gael ei ymestyn i'r arfordir ac ymylon o dir cysylltiedig
- tirfeddianwyr neu ddeiliaid beidio gorfod ysgwyddo unrhyw atebolrwydd i ddiogelu ymwelwyr rhag anafiadau personol drwy ymgymryd â gweithgareddau hamdden ar eu tir
- Llywodraeth Cymru wella mynediad, gan gynnwys seilwaith priodol ac sy'n ystyriol o'r amgylchedd i gyd-fynd â galw cynyddol; wedi'i ddatblygu'n gynaliadwy ac mewn ymgynghoriad â'r sector awyr agored
- cefnogaeth ar gyfer rheoli tir ddarparu cyfleoedd mynediad gwell, wedi'u datblygu mewn ymgynghoriad â grwpiau defnyddwyr/hamdden.



LLUN: SIMON PANTON.

Clogfeinio, ym Mhorth Ysgo, Penllyn



**72%**

Cerdded oedd y prif weithgarwch a wnaed gan bron i dri chwarter (72%) yr holl oedolion yng Nghymru yn 2016. Awyr iach (43%) ac iechyd / ymarfer corff (43%) oedd y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd dros ymweliad diwethaf yr ymatebwyr.

(Arolwg Cenedlaethol Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru 2016-17 – Hamdden Awyr Agored)

# 3

## SICRHAU BOD Y TIRWEDD YN CAEL EI REOLI'N GYNALIADWY

Mae ansawdd cefn gwlad ac arfordir Cymru yn hollbwysig i iechyd ac economi ein gwlad ac mae'n rhaid eu reoli'n gynaliadwy. Gyda'r galw cynyddol am weithgareddau hamdden yn yr awyr agored, mae rheoli ein tirweddau dynodedig ac ehangach mewn ffyrdd cynaliadwy yn galw am ffocws o'r newydd. Mae BMC yn gryf o blaid dibenion statudol ein Tirweddau Dynodedig, sy'n cynnwys llawer o'n hoff leoedd.

**Galwn am:**

- gyllid ddigonol ar gyfer pob corff sy'n rheoli Tirweddau Dynodedig (gan gynnwys Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) er mwyn diogelu ardaloedd mynyddig ac arfordirol mwyaf sensitif Cymru yn briodol
- ddull cynaliadwy o gynllunio sy'n gwarchod ein cefn gwlad a'n harfordir rhag datblygiadau amhriodol, gan gydnabod pwysigrwydd tirwedd hardd a gwyllt Cymru
- system drafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy, sy'n amgylcheddol gynaliadwy sy'n galluogi preswylwyr ac ymwelwyr i deithio i gael mynediad at gefn gwlad, sydd wedi'i chysylltu â rhwydwaith o lwybrau teithio llesol
- buddsoddi mewn mentrau sy'n annog ymddygiad cyfrifol ac yn datblygu dealltwriaeth i'r rhai sy'n mwynhau gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored; i gynnwys cyfrifoldeb personol dros ddiogelwch; gofalu am yr amgylchedd; parchu cymunedau lleol a defnyddwyr eraill
- Llywodraeth Cymru gymryd camau gweithredol pellach ar frys i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, lleihau allyriadau ar gyfradd gyflymach a chefnogi cymunedau sydd eisoes yn cael eu heffeithio yng Nghymru.



**25%**

Mae Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), yn cynrychioli 25% o Gymru.

(Cyfoeth Naturiol Cymru)



# 160,000

Ar hyn o bryd mae yna fwy na 1000 o hyfforddwyr dringo ac arweinwyr mynydda cymwys, cyflogedig sy'n byw yng Nghymru, sy'n darparu cyrsiau sgiliau a hyfforddiant yng Nghymru i 160,000 o unigolion y flwyddyn

(Mountain Training Cymru)

# 4

## GWELLA IECHYD Y CYHOEDD DRWY GYFRANOGIAD

Mae dringo, cerdded a mynydda yn cael effeithiau hirdymor sylweddol ar wella iechyd corfforol ac iechyd meddwl.  Mae bod allan yn yr awyr agored, cael eich amlygu i leoedd naturiol a bywyd gwyllt, wrth archwilio mynyddoedd, arfordiroedd a chlogwyni yn arwain at dwf personol. Mae BMC Cymru yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn mentrau sy'n cynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored ac sy'n cefnogi cyflwyno mwy o'r cynlluniau hyn.  Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth ddatblygu cenedl wydn yn dilyn Covid.

**Galwn am:**

- gefnogaeth ariannol ar gyfer mentrau presgripsiynau cymdeithasol a all leihau'r ddibyniaeth ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol; wedi'u hysgogi gan bartneriaethau traws-sectoraidd
- fwy o gefnogaeth ar gyfer mentrau priodol sy'n ystyriol o'r amgylchedd, sy'n gwella mynediad at a mwynhad o anturiaethau mewn amgylcheddau gwledig a threfol
- fuddsoddi mewn cyfleoedd i bobl ifanc o'r oedran cynharaf, er mwyn iddynt allu mwynhau profiadau o weithgareddau rheolaidd a blaengar yn yr awyr agored, gan gynnwys drwy'r cwricwlwm i Gymru
- I Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r BMC fel y corff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer dringo cystadleuol, er mwyn datblygu talent  elitaidd a buddsoddi ymhellach mewn dringo cystadleuol yng Nghymru, gan gydnabod a chefnogi'r rhai sydd wedi'u hysbrydoli gan y ffaith bod dringo wedi'i gynnwys fel camp Olympaidd.

# 5

## GWERTHUSO A GWERTHFAWROGI PWYSIGRWYDD ECONOMAIDD MYNEDIAD ANFFURFIOL I GEFN GWLAD

Mae twristiaeth gweithgareddau awyr agored (y mae dringo a cherdded yn rhan bwysig ohoni) yn sector pwysig ar hyn o bryd i economi Cymru, a bydd ei bwysigrwydd yn parhau i ddatblygu wrth i'r sector gweithgareddau awyr agored gynyddu.

Mae ffyniant economaidd gwledig Cymru yn ddibynnol ar fynediad am ddim i'w harfordir a'i chefn gwlad. Mae'r 12 miliwn o bobl y flwyddyn sy'n cael mynediad i Barciau Cenedlaethol Cymru ac sy'n gwario tua un biliwn o bunnoedd ar nwyddau a gwasanaethau yn dyst i hyn.  Mae cryfderau Cymru fel cyrchfan i ymwelwyr yn seiliedig ar ei hamgylchedd naturiol yn ogystal â'r potensial o ganlyniad i hyn i ymgysylltu mewn gweithgareddau awyr agored, gan ddefnyddio darparwyr proffesiynol y sector awyr agored (8,000 cyfwerth ag amser llawn (FTE)), sy'n elfen graidd o'r economi wledig yng Nghymru.

**Galwn am:**

- ymchwil gyfredol o werth cyfraniad cymdeithasol ac economaidd y sector
- I Lywodraeth Cymru i gwmpasu a chefnogi cyfleoedd gweithgareddau awyr agored er mwyn grymuso cymunedau, busnesau ac unigolion lleol i sicrhau budd economaidd uniongyrchol ac anuniongyrchol
- I Lywodraeth Cymru i gydnabod bod campfeydd dringo dan do, fel rhan o'r sector campfeydd dan do, yn llwybr hollbwysig ar gyfer cyfranogi mewn dringo, gan ddarparu mynediad i bobl o bob gallu ac yn adnodd cymdeithasol gwerthfawr hefyd.



# £481,000,000

Amcangyfrifir mai cyfanswm cyfraniad blynyddol twristiaeth gweithgarwch awyr agored i economi Cymru yw tua £481 miliwn; mae hynny'n 6% neu'n £1 ym mhob £16.67 (1.02% o GDP Cymru) o gyfanswm cyfraniad economaidd pob math o dwristiaeth yng Nghymru.

(Adroddiad Miller, 2014)

**360,000**

Gwneir 360,000 o ymweliadau unigol i waliau dringo yng Nghymru bob blwyddyn.

(Cymdeithas Waliau Dringo Prydain)



**1.2million**

Mae tua 1.2 miliwn o bobl yn dringo'r Wyddfa a Phen y Fan bob blwyddyn.

(Yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Ymddiriedolaeth

## EIN HADDEWID

Mae gan Gyngor Mynydda Prydain fwy na 75,000 o aelodau a mwy na 250 o Glybiau sy'n gysylltiedig â BMC. Mae BMC Cymru yn cynrychioli tua 7,000 o aelodau a 18 o glybiau cysylltiedig yng Nghymru, ac mae'n diogelu buddiannau nifer gynyddol o bobl sy'n mwynhau mynediad tawel i'n harfordir a chefn gwlad yng Nghymru bob blwyddyn.

Drwy ein swyddog mynediad a chadwraeth Cymru, mae gennym brofiad blaenorol cadarn o weithio mewn partneriaeth â thirfeddianwyr a chyrff cadwraeth er mwyn sicrhau bod mynediad yn cael ei reoli'n llwyddiannus, lle mae pob parti yn cydnabod ac yn parchu buddiannau cyfreithlon eraill a phan fydd hamdden a chadwraeth yn fuddiol i bawb. Yn 2021, byddwn yn adeiladu ar hyn drwy gyflogi swyddog polisi yng Nghaerdydd i weithio ar yr ystod lawn o faterion sy'n effeithio ar ddringwyr, cerddwyr mynydd a mynyddwyr yng Nghymru.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth a'i hasiantaethau yn y dyfodol; gan gydweithio i gyflawni anturiaethau ffyniannus, egnïol, sy'n gwella bywyd ac sy'n cael eu mwynhau gan y genedl yn yr awyr agored yng Nghymru.

Am fanylion pellach, cysylltwch gyda Swyddog Mynediad a Chadwraeth Cymru y BMC
**elfyn@thebmc.co.uk**

## CYFEIRIADAU

Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 Cyfoeth Naturiol Cymru – Hamdden Awyr Agored
www.naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/national-survey-for-wales

Millar 2014 (Economic Impact of Outdoor Activity Tourism in Wales ar gyfer Llywodraeth Cymru)
www.outdoorrecreationni.com/wp-content/uploads/2015/11/The-Economic-Impact-of-Outdoor-Activity-Tourism-in-Wales-Visit-Wales-March-2014.pdf

www.snowdonia.gov.wales/addysg-education/facts-and-figures

www.naturalresourceswales.gov.uk/about-us/area-statements/sector-specific-information/area-statements-and-designated-landscapes